



Adroddiad Archwilio Blynyddol yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol (AGLI) 2016-2017

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Adroddiad Archwilio Awdurdod Goruchwylio Lleol

Fersiwn:	1
Dyddiad cyhoeddi:	21 Mawrth 2017
Paratowyd gan:	Maureen Wolfe, Swyddog Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol

Rhestr ddosbarthu:

Goruchwylwyr Bydwreigedd

Pennaeth Bydwreigiaeth

Cyfarwyddwr Nyrsio

Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd

**Caiff yr adroddiad hwn ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru:
www.agic.org.uk**

Cynnwys	Tudalen
Cynnwys	3
1 Cyflwyniad	4
2 Safonau Goruchwyliaeth	4
3 Nodau Archwiliad yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol	5
4 Methodoleg	5
5 Y Broses Archwilio	5
6 Ymweliad Archwilio Blynyddol yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol	6
7 Asesiad o'r Graddau y Cydymffurfir â Rheolau a Safonau Bydwragedd (NMC 2012)	7
8 Canfyddiadau'r Adolygydd Lleyg	15
9 Crynodeb o'r Argymhellion	17
10 Monitro	20
11 Casgliad	21
12.1 Atodiad 1 – Y Rhaglen ar gyfer yr Archwiliad AGLI	22
12.2 Atodiad 2 – Holiadur AGLI	25

1 Cyflwyniad

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) sy'n pennu'r rheolau a'r safonau ar gyfer swyddogaeth yr awdurdodau goruchwyllo lleol (AGLI) a'r broses o oruchwyllo bydwagedd. Mae swyddog bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol (swyddog bydwreigiaeth yr AGLI) yn atebol yn broffesiynol i'r NMC. Swyddogaeth swyddog bydwreigiaeth yr AGLI yw sicrhau bod proses statudol o oruchwyllo bydwagedd ar waith er mwyn sicrhau bod gofal bydwreigiaeth diogel o ansawdd uchel yn cael ei ddarparu i fenywod.

Mae goruchwylwyr bydwagedd yn cael eu penodi gan yr AGLI, y mae ei swyddogaeth yn rhan o Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Prif gyfrifoldeb yr AGLI yw diogelu'r cyhoedd drwy fonitro ansawdd ymarfer bydwreigiaeth drwy gyfrwng goruchwyliaeth statudol ar fydwragedd. Mae'r AGLI yn penodi dau swyddog bydwreigiaeth yr AGLI i gyflawni swyddogaethau'r AGLI yng Nghymru.

Mae'n ofynnol i bob bydwraig sy'n ymarfer yn y Deyrnas Unedig fod â goruchwyllydd bydwagedd a enwir. Bydwraig yw goruchwyllydd bydwagedd, sydd wedi cymhwysu ers o leiaf dair blynedd ac sydd wedi dilyn cwrs paratoi mewn goruchwyliaeth ar fydwragedd (Rheol 8, NMC 2012). Mae pob goruchwyllydd bydwagedd yn unigolyn y gall bydwagedd droi ato i gael cyngor, arweiniad a chymorth. Bydd y goruchwylwyr bydwagedd yn monitro gofal drwy gwrrd â phob bydwraig yn flynyddol (Rheol 9, NMC 2012), archwilio dull y bydwagedd o gadw cofnodion, ac ymchwilio i unrhyw adroddiadau ynghylch problemau/pryderon o ran ymarfer. Maent hefyd yn gyfrifol am ymchwilio i unrhyw ddiwyddiadau difrifol a rhoi gwybod i swyddog bydwreigiaeth yr AGLI amdanynt (Rheol 10, NMC 2012).

Mae Rheol 7 o ddogfen *Rheolau a Safonau Bydwagedd* (NMC 2012) yn ei gwneud yn ofynnol i swyddog bydwreigiaeth yr AGLI gwblhau archwiliad blynyddol o ymarfer bydwagedd yn ei ardal, a'r oruchwyliaeth arnynt, er mwyn sicrhau bod gofynion yr NMC yn cael eu cyflawni. Mae Adroddiad Archwilio Blynyddol yr AGLI yn llywio'r NMC (Rheol 13).

2 Safonau Goruchwyliaeth

1. Mae goruchwylwyr bydwagedd ar gael i gynnig arweiniad a chymorth i fenywod sy'n defnyddio gwasanaeth mamolaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ran darparu gofal sy'n canolbwyntio ar fenywod.
2. Mae goruchwylwyr bydwagedd yn atebol i'r Awdurdod Goruchwyllo Lleol yn uniongyrchol am bob mater sy'n ymwneud â'r oruchwyliaeth statudol ar fydwragedd ac mae fframwaith lleol ar gael i ategu'r swyddogaeth statudol.
3. Mae goruchwylwyr bydwagedd yn darparu arweinyddiaeth broffesiynol ac yn meithrin darpar arweinwyr.
4. Mae goruchwylwyr bydwagedd yn gyfeillgar ac yn hygyrch i fydwragedd i'w cynorthwyo gyda'u hymarfer.
5. Mae goruchwylwyr bydwagedd yn helpu bydwagedd i ddarparu amgylchedd diogel ar gyfer ymarfer bydwreigiaeth sydd wedi'i seilio ar dystiolaeth.

Rheolau a Safonau Bydwagedd (NMC, 2012)

3 Nodau Archwiliad yr Awdurdod Goruchwylio Lleol

Diben archwiliad blynyddol 2016–17 yw:

- Cadarnhau bod argymhellion yr archwiliad blaenorol wedi'u cyflawni
- Cadarnhau bod goruchwylwyr bydwragedd yn cyflawni'r swyddogaeth oruchwylio ym mhob bwrdd iechyd yn ôl safonau'r NMC
- Sicrhau bod systemau a phrosesau perthnasol ar waith er diogelwch mamau a babanod
- Adolygu effaith goruchwyliaeth ar ymarfer bydwreigiaeth
- Gwneud awgrymiadau ynglŷn â datblygiadau pellach a gwelliannau parhaus
- Sicrhau bod ymarfer bydwreigiaeth wedi'i seilio ar dystiolaeth a'i fod yn ymateb i anghenion menywod
- Asesu a datblygu dealltwriaeth cyfranogwyr o'r newidiadau i'r drefn oruchwylio statudol.

Bydd canfyddiadau'r archwiliad ledled Cymru yn llywio cyfeiriad y gefnogaeth i fydwragedd pan fydd y newidiadau deddfwriaethol yn cael eu gwneud i adael goruchwyliaeth statudol yn 2017.

4 Methodoleg

Fel rhan o'r broses o archwilio safonau'r AGLI, bydd tîm archwilio'r AGLI yn gwirio tystiolaeth. Mae'n ofynnol hefyd bod y tîm goruchwylwyr bydwragedd yn myfyrio ar eu perfformiad trwy gyfrwng cyflwyniad i'r tîm adolygu archwiliadau a fydd yn cynnwys llwyddiannau a heriau. Cydnabyddir bod hunanadolygu'n ddull pwerus sy'n ysgogi datblygiad proffesiynol ac sy'n creu ymwybyddiaeth o atebolrwydd personol.

Mae'r tîm adolygu'n cwblhau adolygiad o'r dystiolaeth cyn yr archwiliad hefyd, gan gynnwys adolygiad gan gymheiriaid o'r graddau y mae'r goruchwyllydd bydwragedd unigol yn cydymffurfio â phroses ymchwilio'r AGLI.

Yn y flwyddyn derfynol hon o'r drefn o gael yr AGLI i archwilio goruchwyliaeth statudol, mae'r dull a ddefnyddir yn canolbwyntio ar y rôl statudol greiddiol a ddisgrifir yn nogfen Rheolau a Safonau Bydwragedd.

5 Y Broses Archwilio

Ar gyfer 2016–17, roedd y broses archwilio'n cynnwys yr elfennau a ganlyn:

- Adolygiad o'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn unol ag asesiad o'r graddau y cydymffurfir â Rheolau a Safonau Bydwragedd (NMC 2012), gan gynnwys adolygiad o'r cynllun gweithredu i gyflawni argymhellion yr AGLI yn sgil ymweliad archwilio 2015/16
- Ymweliad archwilio, gan gynnwys holi bydwragedd a menywod.

6 Ymweliad Archwilio Blynyddol yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol

Cynhaliwyd ymweliad archwilio blynyddol yr AGLI ar 21 a 22 Medi 2016 gan Maureen Wolfe, swyddog bydwreigiaeth yr AGLI. Cafodd swyddog bydwreigiaeth yr AGLI gefnogaeth gan gymheiriaid sy'n oruchwylwyr bydwragedd, Kim Ashton a Rebecca Lewis, a chan adolygydd lleyg yr AGLI, Lindsey Phillips.

Roedd tîm goruchwyllo Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cynwys Julie Hurford, Wendy Roberts a Karen Roberts. Roedd 385 o fydwragedd mewn swydd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar ddiwedd Chwarter Un (30 Mehefin 2016) a 3.0 o oruchwylwyr bydwragedd cyfwerth ag amser llawn. Mae hyn yn cyfateb i un goruchwyllydd bydwragedd i bob 11 o fydwragedd, sydd o fewn terfyn y gymhareb ofynnol a bennwyd gan yr NMC, sef un goruchwyllydd bydwragedd i bob 15 o fydwragedd.

Mae gan bob goruchwyllydd bydwragedd gweithredol lwyth achosion o fydwragedd ac mae'n cymryd rhan yn y gwaith o ddarparu cyngor a chymorth goruchwyllo bob awr o'r dydd, drwy rota ar alwad Cymru gyfan.

Mae'r holl oruchwylwyr bydwragedd wedi cyfrannu at y broses o gasglu tystiolaeth ac o ddatblygu'r cyflwyniad yn yr ymweliad archwilio. Roedd hwn yn cwmpasu llwyddiannau a heriau'r timau drwy gydol 2015–16.

7 Asesiad o'r Graddau y Cydymffurfir â Rheolau a Safonau Bydwagedd (NMC 2012)

Rheol 4 Hysbysiadau gan yr Awdurdod Goruchwylio Lleol	
<p>Rheol</p> <p>(1) Rhaid i bob awdurdod goruchwylio lleol yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon gyhoeddi:</p> <p>(a) enw a chyfeiriad ei swyddog bydwreigiaeth y mae hysbysiad o dan Reol 3(2) neu (3) i'w gyflwyno iddo;</p> <p>(b) y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid i fydwraig roi hysbysiad o dan Reol 3(3).</p> <p>(1A) Rhaid i'r awdurdod goruchwylio lleol yn Lloegr gyhoeddi:</p> <p>(a) enw a chyfeiriad pob un o'i swyddogion bydwreigiaeth y mae hysbysiad o dan Reol 3(2) neu (3) i'w gyflwyno i un ohonynt;</p> <p>(b) y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid i fydwraig roi hysbysiad o dan Reol 3(3).</p> <p>(2) Rhaid i bob awdurdod goruchwylio lleol roi gwybod i'r Cyngor, ar y ffurf ac yn ôl yr amlder y mae'r Cyngor yn gofyn amdanynt, am unrhyw hysbysiad a roddir iddo o dan Reol 3.</p> <p>Safon yr AGLI</p> <p>1 Er mwyn cyflawni'r gofynion statudol ar gyfer goruchwylio bydwagedd, rhaid i awdurdod goruchwylio lleol sicrhau:</p> <p>1.1 Bod hysbysiadau o'r bwriad i ymarfer yn cael eu hanfon at y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth erbyn y dyddiad cyflwyno blynyddol a bennir gan y Cyngor.</p> <p>1.2 Bod hysbysiadau o'r bwriad i ymarfer a geir ar ôl y dyddiad cyflwyno blynyddol yn cael eu hanfon at y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.</p>	
Disgwyliad yr AGLI	Tystiolaeth a Chanfyddiadau Archwilio
<p>Byddai ffurflenni ar gyfer hysbysu am y bwriad i ymarfer, wedi'u personoli, wedi cael eu hanfon at bob bydwraig y mae ei henw'n ymddangos ar y gofrestr effeithiol fel ar 31 Mawrth 2015. Er mwyn i fydwragedd fod yn gymwys i gyflwyno hysbysiad o'r bwriad i ymarfer, rhaid iddynt fod â chofrestrriad effeithiol ar y rhan o gofrestr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth sy'n ymwneud â bydwagedd a bod â bwriad i ymarfer bydwreigiaeth.</p> <p>Cyn i'r bwriad i ymarfer gael ei lofnodi, rhaid i'r goruchwylydd bydwagedd a enwir fod wedi cynnal asesiad o'r graddau y mae'r fydwraig wedi cydymffurfio â gofynion y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i gynnal cofrestrriad bydwreigiaeth a rhaid cadarnhau ei bod yn gymwys i ymarfer yn fydwraig. Rhaid i'r goruchwylydd bydwagedd a enwir</p>	<p>Canfuwyd bod pob bydwraig wedi cyflwyno'i ffurflen ynghylch y Bwriad i Ymarfer i oruchwylydd ac yn gymwys i ymarfer ar gofrestr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.</p> <p>Gallai'r tîm ddisgrifio proses glir a chadarn ar gyfer cyflwyno ffurflenni Bwriad i Ymarfer.</p> <p>Mae'r goruchwylwyr bydwagedd yn sicrhau bod bydwagedd yn cydymffurfio â'r safon addysg ac ymarfer ar ôl cofrestru cyn llofnodi eu ffurflen Bwriad i Ymarfer drwy gyfeirio at eu cofnodion adolygu blynyddol unigol, sy'n cynnwys gwybodaeth ynghylch eu horiau ymarfer a datblygiad proffesiynol parhaus.</p>

ddogfennu'r dystiolaeth y mae wedi ei hadolygu ar gyfer pob bydwraig gan nodi sut y mae'n bodloni gofynion addysg ac ymarfer ar ôl cofrestru (PREP) y Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth o ran 35 awr o weithgarwch dysgu (Datblygiad Proffesiynol Parhaus) a 450 awr o ymarfer cofrestredig ym mhob cylch Hysbysu am Ymarfer tair blynedd.

Arferion i'w nodi

- Cydymffurfiwyd yn llwyr o ran cofnodion Bwriad i Ymarfer a'u dileu
- Cydymffurfiwyd yn llwyr o ran datganiadau Bwriad i Ymarfer misol

Meysydd i'w gwella

- Ddim yn berthnasol

Canlyniad

Rheol 4 wedi'i chyflawni

Rheol 6 Cofnodion

Rheol

- (1) Rhaid i fydwraig, cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol, sicrhau bod pob cofnod sy'n ymwneud â'r gofal neu'r cyngor a roddir i fenyw neu'r gofal a roddir i faban, ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r gofal hwnnw:
 - (a) yn cael ei drosglwyddo i gyflogwr y fydwraig er mwyn cadw'r cofnod yn ddiogel; neu
 - (b) yn cael ei gadw'n ddiogel gan y fydwraig ei hun os yw'n hunangyflogedig: ond os nad yw'r fydwraig yn gallu gwneud hyn, yn cael ei drosglwyddo i'r awdurdod goruchwylio lleol yng nghyswllt ei phrif ardal ymarfer ddaearyddol i'w gadw'n ddiogel.
- (2) Pan nad yw bydwraig wedi'i chofrestru gyda'r Cyngor mwyach, rhaid iddi sicrhau, cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol, fod pob cofnod sy'n gysylltiedig â'r gofal neu'r cyngor a roddir i fenyw neu'r gofal a roddir i faban yn cael ei drosglwyddo i'w gadw'n ddiogel i'r awdurdod goruchwylio lleol a oedd, cyn i'w chofrestrriad ddod i ben, yn awdurdod goruchwylio lleol i'r fydwraig yng nghyswllt ei phrif ardal ymarfer ddaearyddol.

Safon yr AGLI

1 Rhaid i awdurdod goruchwylio lleol gyhoeddi canllawiau lleol ar gyfer trosglwyddo cofnodion bydwreigiaeth o fydwragedd hunangyflogedig, a ddylai gynnwys:

- 1.1 Pryd y mae'r cofnodion i'w trosglwyddo.
- 1.2 I bwy y mae'r cofnodion i'w trosglwyddo.
- 1.3 Dulliau o sicrhau bod cofnodion yn cael eu hanfon yn ddiogel.
- 1.4 Dogfennau i gofnodi trosglwyddiad o'r fath.

Y safon fydwragedd

- 1 Rhaid i bob cofnod sy'n gysylltiedig â gofal y fenyw neu'r baban gael ei gadw'n ddiogel am 25 mlynedd. Mae hyn yn cynnwys dyddiaduron gwaith os ydynt yn cynnwys gwybodaeth glinigol.
- 2 Dylai bydwagedd hunangyflogedig sicrhau bod menywod yn gallu cael gafael ar eu cofnodion a dylent roi gwybod iddynt am leoliad eu cofnodion os yw'r rhain yn cael eu trosglwyddo i'r awdurdod goruchwyllo lleol.

Disgwyliad yr AGLI

Mae bydwagedd yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw gofnodion sy'n cynnwys gwybodaeth y gellir ei defnyddio i adnabod unigolyn a/neu wybodaeth glinigol yn cael eu cadw'n ddiogel (mae hyn yn cynnwys dyddiaduron gwaith).

Rhaid i oruchwylwyr bydwagedd roi gwybod i fydwagedd sy'n ymarfer yn hunangyflogedig pryd y dylent drosglwyddo cofnodion i'r AGLI a rhoi gwybod iddynt am bolisi Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth Awdurdodau Goruchwyllo Lleol y DU ynghylch trosglwyddo cofnodion bydwreigiaeth ar gyfer bydwagedd hunangyflogedig.

Tystiolaeth a Chanfyddiadau Archwilio

Yn yr ymweliad archwilio, canfuwyd bod pob cofnod mamolaeth yn cael ei gadw'n ddiogel. Cafodd ardaloedd storio nodiadau o fewn adrannau mamolaeth eu gwirio ar hap gan y tîm archwilio ar ddiwrnod yr archwiliad.

Mae pob goruchwyllydd bydwagedd yn gallu disgrifio'r broses ofynnol ar gyfer cofnodion bydwagedd hunangyflogedig.

Arferion i'w nodi

- **Y broses sydd ar waith ar gyfer trosglwyddo cofnodion i AGIC, y mae rhai ohonynt wedi cael eu trosglwyddo i adeilad Llywodraeth Cymru yng ngogledd Cymru**

Meysydd i'w gwella

- **Ddim yn berthnasol**

Canlyniad

Rheol 6 wedi'i chyflawni

Rheol 8 Goruchwylwyr Bydwagedd

Rheol

- (1) Rhaid i awdurdod goruchwyllo lleol benodi'r hyn y mae'r Cyngor yn ei ystyried yn nifer ddigonol o oruchwylwyr bydwagedd i arfer goruchwyliaeth ar fydwagedd sy'n ymarfer yn ei ardal.
- (2) Rhaid i oruchwyllydd bydwagedd:
 - (a) fod yn fydwraig sy'n ymarfer; a
 - (b) chyflawni'r safonau gofynnol o ran profiad ac addysg ar gyfer swydd goruchwyllydd bydwagedd

fel y'u pennir gan y Cyngor o bryd i'w gilydd.

(3) Ar ôl ei phenodi, rhaid i oruchwilydd bydwragedd gwblhau'r cyfnodau dysgu perthnasol hynny sy'n gysylltiedig â'r oruchwyliaeth ar fydwragedd y bydd y Cyngor yn eu gwneud yn ofynnol o bryd i'w gilydd.

Safonau'r AGLI

1 Mae goruchwylwyr bydwragedd yn cael eu penodi gan yr awdurdod goruchwyllo lleol ac maent yn atebol iddo am bob mater sy'n gysylltiedig â'r oruchwyliaeth statudol ar fydwragedd. Rhaid i'r awdurdod goruchwyllo lleol:

1.1 Gyhoeddi polisi sy'n nodi ei feini prawf a'i weithdrefnau ar gyfer penodi unrhyw oruchwylwr bydwragedd newydd yn ei ardal.

1.2 Cynnal rhestr gyfoes o'r goruchwylwyr bydwragedd yn ei ardal.

1.3 Sicrhau y darperir o leiaf chwe awr o ddatblygiad proffesiynol parhaus fesul blwyddyn o ymarfer.

2 Er mwyn cael ei phenodi am y tro cyntaf yn oruchwylwr bydwragedd, rhaid i fydwraig:

2.1 Meddu ar o leiaf dair blynedd o brofiad yn fydwraig sy'n ymarfer. Yr oedd o leiaf un ohonynt yn y cyfnod dwy flynedd yn union cyn y dyddiad y penodwyd i ddechrau.

3 Rhaid iddi hefyd fod naill ai:

3.1 Wedi cwblhau'n llwyddiannus raglen addysg gymeradwy ar gyfer paratoi goruchwylwyr bydwragedd yn y cyfnod o dair blynedd yn syth cyn y dyddiad penodi cyntaf; neu

3.2 Pan fo mwy na thair blynedd, ond llai na phum mlynedd, wedi mynd heibio ers iddi gwblhau'n llwyddiannus raglen addysg gymeradwy ar gyfer paratoi goruchwylwyr bydwragedd, wedi cydymffurfio â'r gofynion o ran datblygiad proffesiynol parhaus i oruchwylwyr bydwragedd y cyfeirir atynt ym mharagraff 1.3.

4 Yn achos unrhyw benodiad dilynol yn oruchwylwr bydwragedd, rhaid iddi fod yn fydwraig sy'n ymarfer a:

4.1 Bod wedi ymarfer yn oruchwylwr bydwragedd neu'n swyddog bydwreigiaeth awdurdod goruchwyllo lleol yn y cyfnod o dair blynedd yn syth cyn y dyddiad penodi dilynol; Neu

4.2 Pan nad yw ond wedi ymarfer yn oruchwylwr bydwragedd neu'n swyddog bydwreigiaeth awdurdod goruchwyllo lleol mewn cyfnod sy'n fwy na thair blynedd ond yn llai na phum mlynedd yn syth cyn y dyddiad penodi dilynol, fod wedi llwyddo hefyd i gydymffurfio â'r gofynion datblygiad proffesiynol parhaus i oruchwylwyr bydwragedd y cyfeirir atynt ym mharagraff 1.3.

5 Rhaid i oruchwilydd bydwragedd allu bodloni'r cymwyseddau a nodir mewn Safonau ynghylch paratoi goruchwylwyr bydwragedd a'u hymarfer (NMC 2006).

Disgwyliad yr AGLI

Mae myfyrwyr-fydwragedd yn cael eu recriwtio a'u cefnogi'n ddigonol yn dilyn cwblhau rhaglen paratoi goruchwylwyr bydwragedd yn llwyddiannus.

Rhaid i bob goruchwilydd bydwragedd ddangos ei fod yn gallu cyflawni'r cymwyseddau a nodir yn Safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012) ynghylch paratoi goruchwylwyr bydwragedd.

Mae rhestr gyfoes o oruchwylwyr bydwragedd ar gael ar gronfa ddata'r AGLI a bydd yn cael ei chyflwyno yn adroddiad archwilio'r AGLI.

Tystiolaeth a Chanfyddiadau Archwilio

Mae'r niferoedd cywir o oruchwylwyr bydwragedd yn cael eu penodi y tu mewn i'r bwrdd iechyd.

Mae pob aelod o'r tîm goruchwylwyr bydwragedd wedi cwblhau a chofnodi ei weithgareddau addysg ac ymarfer ar ôl cofrestru.

Mae pob aelod o'r tîm goruchwilydd bydwragedd wedi hunanasesu ei gymhwysedd ar gyfer cyflawni'r swydd ac mae ganddo gynllun i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion dysgu.

Ar adeg yr archwiliad, roedd rhestr y goruchwylwyr bydwragedd penodedig yng nghronfa ddata'r AGLI yn gywir.

Arferion i'w nodi
<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r tîm goruchwylwyr bydwagedd yn parhau i fod yn arloesol ac mae wedi rhannu ei fentrau lleol gyda thîm goruchwylwyr bydwagedd Cymru gyfan.
Meysydd i'w gwella
<ul style="list-style-type: none"> • Ddim yn berthnasol
Canlyniad
Rheol 8 wedi'i chyflawni

Rheol 9 Cyfrifoldebau'r Awdurdod Goruchwyllo Lleol ynghylch Goruchwyllo Bydwagedd
<p>Rheol</p> <p>Rhaid i awdurdod goruchwyllo lleol sicrhau:</p> <p>(a) bod pob bydwraig sy'n ymarfer yn ei ardal â goruchwyllydd bydwagedd a enwir o blith y goruchwylwyr bydwagedd a benodwyd gan yr awdurdod goruchwyllo lleol yng nghyswllt ei phrif ardal ymarfer ddaearyddol;</p> <p>(b) bod pob goruchwyllydd bydwagedd yn cyfarfod pob bydwraig y mae'n oruchwyllydd bydwagedd a enwir ar ei chyfer o leiaf unwaith y flwyddyn, i adolygu ymarfer y fydwraig a nodi ei hanghenion addysg;</p> <p>(c) bod pob goruchwyllydd bydwagedd yn ei ardal yn cadw cofnodion o'i weithgareddau goruchwyllo, gan gynnwys unrhyw gyfarfodydd gyda bydwraig; a</p> <p>(ch) bod pob bydwraig sy'n ymarfer yn ei ardal â mynediad 24 awr at oruchwylwr bydwagedd p'un ai'r goruchwyllydd a enwir sydd gan y fydwraig yw honno neu oruchwylwr bydwagedd arall.</p> <p>Safonau'r AGLI</p> <p>1 Rhaid i awdurdod goruchwyllo lleol:</p> <p>1.1 Sicrhau bod fframwaith lleol yn bodoli i ddarparu:</p> <p>1.1.1 Goruchwyliaeth deg ac effeithiol ar gyfer pob bydwraig sy'n gweithio yn yr awdurdod goruchwyllo lleol.</p> <p>1.1.2 Cymorth ar gyfer myfyrwyr-fydwagedd i'w galluogi i gael mynediad at oruchwylwr bydwagedd.</p> <p>1.2 Sicrhau bod y gymhareb o ran nifer y bydwagedd i bob goruchwyllydd bydwagedd yn adlewyrchu'r amgylchiadau a'r angen lleol ac nad yw'n peryglu diogelwch menywod. Fel rheol, ni fydd y gymhareb hon uwchlaw 1:15.</p> <p>1.3 Gosod strategaeth i alluogi cyfathrebu effeithiol rhwng pob goruchwyllydd bydwagedd. Dylai hyn gynnwys cyfathrebu â goruchwylwyr mewn awdurdodau goruchwyllo lleol eraill.</p> <p>1.4 Monitro a sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu darparu i alluogi goruchwylwyr bydwagedd i gyflawni eu swydd.</p> <p>1.5 Cyhoeddi canllawiau i sicrhau cysondeb yn y dull a fabwysiadir gan oruchwylwyr bydwagedd yn ei ardal ar gyfer ymdrin â'r adolygiad blynyddol o ymarfer bydwraig. Rhaid i'r rhain gynnwys bod y goruchwyllydd yn ymgymryd ag asesiad o'r graddau y mae'r fydwraig yn cydymffurfio â'r gofynion i gynnal cofrestrriad bydwreigiaeth. 1.6 Sicrhau bod systemau lleol ar gael i alluogi goruchwylwyr bydwagedd i gynnal cofnodion ynghylch eu holl weithgareddau goruchwyllo, ac</p>

i gadw'r cofnodion hynny'n ddiogel.

Disgwyliadau'r AGLI	Tystiolaeth a Chanfyddiadau Archwilio
<p>Mae fframwaith lleol ar gyfer goruchwyllo.</p> <p>Rhaid i bob myfyriwr-fydwraig gael mynediad at oruchwyllo bydwagedd a dylai fod systemau lleol at y diben hwn.</p> <p>Mae'r gymhareb o oruchwylwyr bydwagedd i fydwagedd yn parhau i fod ar y gymhareb a argymhellir o 1:15.</p> <p>Dylai adnoddau'r gwaith goruchwyllo gael eu hadolygu ym mhob cyfarfod goruchwylwyr bydwagedd.</p> <p>Mae adolygiadau blynyddol wedi'u seilio ar bolisi Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth Awdurdodau Goruchwyllo Lleol y DU.</p> <p>Mae systemau lleol wedi'u datblygu i sicrhau bod goruchwylwyr bydwagedd â systemau ar gyfer cadw unrhyw gofnodion goruchwyllo'n ddiogel.</p>	<p>Mae goruchwyllo bydwagedd ar gael ac yn hygyrch bob awr o'r dydd drwy gyfrwng system ar alwad. Mae manylion cyswllt ar gael yn y rhan fwyaf o ardaloedd clinigol ar gyfer bydwagedd ac mae manylion sut i gysylltu â goruchwyllo bydwagedd ar wefan y bwrdd iechyd.</p> <p>Roedd y tîm yn gallu dangos tystiolaeth o fod yn bresennol yn 75% o gyfarfodydd goruchwylwyr bydwagedd lleol.</p> <p>Mae gan bob bydwraig oruchwyllo bydwagedd a enwir, ac roedd cronfa ddata'r AGLI yn dangos tystiolaeth o hynny.</p> <p>Mae'r tîm goruchwylwyr bydwagedd yn rhan o'r gwaith o addysgu myfyrwr-fydwagedd am oruchwyllo yn yr ardal glinigol ac yn y brifysgol. Mae myfyrwr-fydwagedd yn gwybod sut i gysylltu â'u goruchwyllo bydwagedd eu hunain a'r goruchwyllo bydwagedd ar alwad os oes angen. Estynnir gwahoddiad i fyfyrwr-fydwagedd fynychu sesiynau archwilio nodiadau ac i oruchwylloeth grŵp yn y flwyddyn cyn cymhwyso.</p> <p>Mae'r gymhareb gyffredinol o ran nifer y bydwagedd i bob goruchwyllo bydwagedd yn cyfateb i 1:11, sydd o fewn terfyn y gymhareb a argymhellir.</p> <p>Mae pob adolygiad blynyddol yn cael ei gynnal yn unol â pholisi Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth Awdurdodau Goruchwyllo Lleol y DU, a chafodd hyn ei gadarnhau drwy gyfrwng hapwiriad ar gronfa ddata'r AGLI cyn archwilio.</p> <p>Mae cofnodion goruchwyllo'n cael eu cadw'n ddiogel naill ai ar gronfa ddata'r AGLI neu ar system iShare Llywodraeth Cymru. Mae copïau papur yn cael eu cadw'n ddiogel mewn cypyrddau storio</p>

	dan glo.
Arferion i'w nodi	
<ul style="list-style-type: none"> • Cydymffurfio'n llwyr â'r Adolygiad Goruchwylio Blynyddol • Rhyngweithio cyson â myfyrwyr-fydwagedd 	
Meysydd i'w gwella	
<ul style="list-style-type: none"> • Ddim yn berthnasol 	
Canlyniad	
Rheol 9 wedi'i chyflawni	

Rheol 10 Cyhoeddi Gweithdrefnau Awdurdodau Goruchwylio Lleol	
<p>Rheol Rhaid i bob awdurdod goruchwylio lleol gyhoeddi ei weithdrefn ar gyfer: (a) rhoi gwybod am bob digwyddiad niweidiol sy'n gysylltiedig ag ymarfer bydwreigiaeth neu honiadau o ffitrwydd diffygiol i ymarfer yn erbyn bydwagedd sy'n ymarfer yn ei ardal; (b) ymchwilio i unrhyw adroddiadau a wneir o dan baragraff (a); ac (c) ymdrin â cwynion neu honiadau o ffitrwydd diffygiol i ymarfer yn erbyn ei swyddog bydwreigiaeth neu oruchwylwyr bydwagedd yn ei ardal.</p> <p>Hysbysu am ddigwyddiadau niweidiol, cwynion neu bryderon sy'n gysylltiedig ag ymarfer bydwreigiaeth Safon yr AGLI 1 Rhaid i awdurdodau goruchwylio lleol ddatblygu system, ar y cyd â chyflogwyr bydwagedd a bydwagedd hunangyflogedig, i sicrhau bod swyddog bydwreigiaeth yr awdurdod goruchwylio lleol yn cael ei hysbysu am bob digwyddiad anffafriol, cwynion neu bryderon sy'n gysylltiedig ag arferion bydwreigiaeth, neu honiadau o ddiffyg ffitrwydd i ymarfer yn erbyn bydwraig.</p> <p>Ymchwiliadau goruchwylio Safon yr AGLI 1 Rhaid i awdurdodau goruchwylio lleol gyhoeddi canllawiau ar gyfer ymchwilio i ddigwyddiadau, cwynion neu bryderon sy'n gysylltiedig ag ymarfer bydwreigiaeth neu honiadau o ddiffyg ffitrwydd i ymarfer yn erbyn bydwraig. Rhaid i'r canllawiau hyn: 1.1 Ganiatáu dull agored, tryloyw ac amserol, sy'n dangos bod proses gadarn o wneud penderfyniadau ar waith a fydd yn gwrthsefyll craffu allanol. 1.2 Caniatáu cyfle i'r fydwraig gymryd rhan yn yr archwiliad. 1.3 Amlinellu'r camau gofynnol a'r canlyniadau posibl yn dilyn archwiliad. 1.4 1.4 Caniatáu proses apelio.</p>	
Disgwyliad yr AGLI	Tystiolaeth a Chanfyddiadau Archwilio
Dylai fod cofnod o bob ymchwiliad a gynhaliwyd, ei ganlyniad, a'r amser a gymerwyd i'w gwblhau. Dylai fod tystiolaeth o waith adolygu rheolaidd o'r ymchwiliadau ac unrhyw themâu sy'n dod i'r amlwg o ran ymarfer bydwreigiaeth.	Cynhelir ymchwiliadau goruchwylio mewn byrddau iechyd allanol i leihau tuedd ac i uchafu'r cymorth lleol i'r fydwraig. Mae'r tîm wedi llwyddo i gydymffurfio â phob agwedd ar wahân i brydlondeb.

<p>Dylai argymhellion gwasanaeth sy'n datblygu o ymchwiliadau gael eu huwchgyfeirio at y cyflogwr a'u monitro gan y tîm goruchwylwyr bydwagedd.</p> <p>Mae tystiolaeth o waith adolygu systematig o ymarfer bydwreigiaeth pan fo'n ofynnol.</p> <p>Dylai fod rhyngwyneb effeithiol, dryloyw, sy'n cael ei rhannu, rhwng goruchwyliaeth a llywodraethu clinigol.</p>	<p>Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cynhaliwyd tri ymchwiliad gan y tîm goruchwylwyr bydwagedd lleol ond dim ond un ohonynt a gwblhawyd o fewn y cyfnod amser a argymhellir, sef 60 diwrnod.</p> <p>Mae system gadarn ar gyfer dilyn ymchwiliadau y mae pob goruchwyllydd bydwagedd yn ei defnyddio'n gyson.</p> <p>Caiff canfyddiadau ymchwiliadau eu trafod mewn cyfarfodydd goruchwylwyr bydwagedd fel y gellir canfod tueddiadau a gweithredu unrhyw wersi drwy newid arferion a chynllunio camau.</p> <p>Caiff y rheolwyr eu holi ynghylch unrhyw argymhellion sefydliadol sy'n deillio o ymchwiliadau goruchwyllo.</p> <p>Mae goruchwylwyr bydwagedd yn mynychu ac yn cyfrannu at y cyfarfodydd llywodraethu mamolaeth, adolygiadau o ddigwyddiadau a'r grŵp polisi.</p> <p>Mae'r tîm goruchwylwyr bydwagedd yn gallu mynd at adroddiadau digwyddiadau Datix, sy'n caniatáu adolygiad annibynnol amserol, cwblhau 'dull gwneud penderfyniad' pan gaiff ei nodi, a dechrau ymchwiliad goruchwyllo. Mae'r AGLI yn cymryd rhan yn y broses hon, yn goruchwyllo adroddiadau ymchwilio, ac yn cytuno ar unrhyw argymhellion a wneir ar gyfer bydwagedd o ganlyniad i ymchwiliad goruchwyllo.</p>
<p>Arferion i'w nodi</p>	
<ul style="list-style-type: none"> • Roedd yr holl ddogfennau ymchwiliad gofynnol ar gael ac wedi cael eu storio'n briodol 	
<p>Canlyniad</p>	
<p style="text-align: center;">Rheol 10 – Mae angen gwella</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dylid cwblhau pob ymchwiliad goruchwyllo o fewn 60 diwrnod ond cydnabyddir bod hwn yn fater i Gymru gyfan. 	

8 Canfyddiadau'r Adolygydd Lleyg

Bu'r adolygydd lleyg yn chwarae rhan lawn yn yr archwiliad, gan gynnwys:

- Trafod boddhad gyda'r gwasanaeth ac ymwybyddiaeth o oruchwylio gyda defnyddwyr gwasanaeth ar draws amrywiaeth o safleoedd mewn amgylchiadau cyn-genï ac ôl-enedigol
- Arsylwi ar yr amgylchedd clinigol cyffredinol, ac asesu amlygrwydd goruchwyliaeth mewn ardaloedd cyhoeddus
- Ymgymryd â gwaith ymchwil cyn archwilio o ran y wybodaeth ar wefan y bwrdd iechyd ynglŷn â goruchwyliaeth ac ymwybyddiaeth y switsfwrdd o'r rhif ar alwad
- Gweithio gyda goruchwyllydd bydwragedd allanol i gynnal cyfweiliadau â:
 - bydwragedd ag ystod o brofiad
 - goruchwylwyr bydwragedd.

Cynhaliwyd cyfweiliadau â rhyw 16 o fenywod (a'u teuluoedd mewn rhai achosion) ar draws tri safle, yn ystod y broses archwilio. Ymysg y defnyddwyr gwasanaeth hyn, roedd chwarter ohonynt yn ymwybodol o oruchwyliaeth, gan barhau thema'r archwiliad blaenorol, a oedd yn cydnabod bod mwy o ymwybyddiaeth o oruchwyliaeth nac erioed a bod ymwybyddiaeth yn uwch nag mewn rhannau eraill o Gymru. Roedd un fenyw wedi cael ei hysbysu am oruchwylio gan ffrind neu fydwaig, un wedi gweld yr hysbysfwrdd goruchwylio wrth fynedfa'r ward, ac roedd un tad wedi darllen am oruchwylio yn y nodiadau llaw. Cawsom gyfle hefyd i gyfweld â menyw a oedd wedi cael cymorth gan oruchwyllydd bydwragedd oherwydd bod ei dewis ar gyfer geni'n gofyn am lefel uwch o asesiad risg a chymorth. Roedd yn teimlo bod cyfraniad y goruchwyllydd bydwragedd yn hollbwysig, a heb y cyfraniad hwnnw, nid yw'n sicr a fyddai wedi cael y cymorth gyda'i dewis ar gyfer geni. Roedd y goruchwyllydd bydwragedd yn gweithredu fel swyddog cyswllt rhwng yr holl bartion perthnasol ac yn darparu pwynt cyswllt agored, hygyrch a chysurol ar gyfer y fenyw trwy gydol y broses. Dyma dystiolaeth uniongyrchol o'r anghenraid i ddarparu eiriolaeth i fenywod gan y bwrdd iechyd ac effaith sylweddol yr eiriolaeth honno ar gefnogi dewis i fenywod.

Ar y cyfan, roedd lefel boddhad menywod a'u teuluoedd gyda'u gofal yn hynod o uchel, a methodd cyfran fawr o'r rhai y bu i ni gyfweld â nhw ag awgrymu unrhyw welliannau i'r gwasanaethau. Yn ogystal, enwodd llawer o ddefnyddwyr gwasanaeth staff unigol a oedd wedi bod o gymorth arbennig iddynt yn ystod eu gofal mamolaeth. Roedd yr unig fân sylwadau am welliannau i wasanaethau mamolaeth yn ymwneud â darparu gwybodaeth mewn ffordd brydlon a chysondeb gofal.

Roedd yr amgylchoedd clinigol i gyd yn lân, yn daclus ac mewn cyflwr da. Roedd ymdeimlad o dawelwch ym mhob un o'r ardaloedd mamolaeth y bu i ni ymweld â nhw, hyd yn oed pan oedd yn amlwg bod y gwasanaeth yn brysur iawn. Roedd hyn yn cael ei adlewyrchu'n bendant yn y sylwadau gan fenywod a'u teuluoedd a dylid canmol staff ar bob lefel am eu hymdrechion. Ar y cyfan, roedd yr Unedau dan Arweiniad Bydwreigiaeth yn cynnig amgylchedd deniadol i ddefnyddwyr gwasanaeth

ac roedd staff yr unedau hyn yn frwdfrydig iawn ynglŷn â'u defnydd. Fodd bynnag, gallai'r Uned dan Arweiniad Bydwreigiaeth yn Ysbyty Gwynedd eiwa ar welliannau bach i leihau'r ymdeimlad meddygol yno, yn arbennig trwy roi sgrin o amgylch y gadair bwytho yn ystafell y pwl a thynnu'r troli gwaed o'r coridor. Ni nodwyd unrhyw wybodaeth oruchwyllo yn unrhyw un o'r unedau dan arweiniad bydwreigiaeth ac, o ystyried bod gan y rhan fwyaf ohonynt fynedfa uniongyrchol i ddefnyddwyr gwasanaeth, sy'n golygu nad oes rhaid mynd trwy ardaloedd mamolaeth cyffredinol, mae cwmpas i ddarparu manylion goruchwyllo ar wahân ym mhob un ohonynt.

Mae byrddau gwybodaeth goruchwylwyr bydwagedd yn ardaloedd mynedfa pob un o'r prif wardiau mamolaeth ac mae'r rhain yn cynnwys gwybodaeth helaeth am oruchwyllo a sut y gallant gefnogi menywod. Roedd un bwrdd goruchwyllo yn y ward geni yn Ysbyty Glan Clwyd a oedd ar gyfer staff yn ôl pob golwg ac efallai y byddai ystafell y staff yn lleoliad gwell ar ei gyfer.

Mae adran mamolaeth gwefan y bwrdd iechyd yn cynnwys gwybodaeth helaeth am oruchwyllo bydwagedd, ac mae'n cynnwys dolenni i'r AGLI, taflen ynghylch cyflawni ("Delivering for You"), a manylion y rhif ar alwad bob awr o'r dydd. Er bod y wybodaeth yn helaeth, gallai fod yn ddefnyddiol i gael y wybodaeth gyffredinol am oruchwyllo ar ddechrau'r adran, yn hytrach na manylion adroddiad archwilio AGLI 2013–14, ond mân sylw yn unig yw hwn. Mae adran 'Gofal yn ystod Beichiogrwydd' y wefan hefyd yn cynnwys gwybodaeth am oruchwyllo, ond rhifau cyswllt y ward geni leol sy'n cael eu rhoi ar gyfer goruchwylwyr bydwagedd. Llwyddodd y cyswllt switsfwrdd cyn archwiliad i gael gafael ar y rhif ar alwad bob awr o'r dydd ar gyfer goruchwyllydd bydwagedd, er bod angen rhywfaint o anogaeth i ganfod y sianel gywir.

Ar y cyfan, roedd y bydwagedd y bu i ni gyfweld â nhw'n gadarnhaol iawn am oruchwyliaeth, yn arbennig pa mor hyblyg a gweledol oedd y goruchwylwyr bydwagedd presennol, goruchwyllo grŵp, a'r rôl gefnogol mae goruchwylwyr bydwagedd yn ei chwarae mewn ymarfer bydwreigiaeth – er enghraifft, wrth gefnogi ailddilysiad yn ddiweddar. Er bod pob bydwraig yn ymwybodol bod newidiadau i oruchwyliaeth ar ddigwydd, ychydig o ymwybyddiaeth oedd am fanylion y model ar gyfer y dyfodol. At hynny, nid oedd unrhyw arwydd clir o sut y byddai'r eiriolaeth a gynigir i fenywod gan y goruchwylwyr bydwagedd ar hyn o bryd yn cael ei chefnogi dan y model newydd. Fodd bynnag, roedd ymdeimlad cryf bod angen i oruchwyliaeth barhau a hyder y byddai'r sefydliad yn cefnogi goruchwyliaeth yn y dyfodol.

Ymddengys fod y tîm goruchwylwyr bydwagedd yn uned gref a chadarnhaol, yn darparu cefnogaeth amhrisiadwy i fydwagedd a menywod ledled y bwrdd iechyd. Er gwaethaf rhai heriau a nodwyd wrth roi model newydd anstatudol ar waith, maent yn ymddangos yn hyderus yn ymroddiad eu bwrdd iechyd i oruchwyliaeth ac i'r dyfodol.

9 Crynodeb o'r Argymhellion

Cydymffurfio â gofynion y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Trafodwyd y ddarpariaeth o oruchwyliaeth effeithiol gan yr AGLI o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr â'r Cyfarwyddwr Nyrsio, sy'n gymharol newydd i'r swydd. Dywedodd y Cyfarwyddwr Nyrsio ei bod yn sicr bod swyddog bydwreigiaeth yr AGLI yn gallu cyflawni ei swyddogaeth o fewn y bwrdd iechyd a bod ganddo weithdrefn gynhwysfawr ar gyfer hysbysu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Wrth drafod ymhellach ynglŷn ag uwchgyfeirio pryderon yr AGLI, gan sicrhau ymarfer bydwreigiaeth diogel o fewn y sefydliad, dywedodd y Cyfarwyddwr Nyrsio iddi ganfod bod yr AGLI yn effeithiol.

Dywedodd y Pennaeth Bydwreigiaeth ei bod yn fodlon bod y tîm goruchwylwyr bydwagedd lleol yn lleisio pryderon yn effeithiol ac mae mewn cysylltiad â nhw'n wythnosol trwy gyfarfodydd y bwrdd iechyd. Roedd y Pennaeth Bydwreigiaeth hefyd yn sicr y byddai'r tîm goruchwylwyr bydwagedd yn mynd ati rhwng cyfarfodydd pe byddai ganddynt unrhyw broblemau yr oeddent am eu trafod. Roedd tystiolaeth o gyfarfodydd misol rhwng y Pennaeth Bydwreigiaeth a'r tîm goruchwylwyr bydwagedd.

Dywedodd y Pennaeth Bydwreigiaeth fod y tîm goruchwylwyr bydwagedd wedi ei ymgorffori yn y broses llywodraethu a chadarnhawyd hyn gan yr uwch-fydwagedd a'r fydwaig risg a gafodd eu cyfweld. Dywedodd y Pennaeth Bydwreigiaeth y byddai'r tîm goruchwylwyr bydwagedd yn rhan o'r tîm llywodraethu yn y dyfodol a'r gobaith oedd y byddai hyn yn cryfhau prosesau llywodraethu ymhellach o fewn y bwrdd iechyd.

Roedd y Pennaeth Bydwreigiaeth yn gymharol hapus gyda chyfathrebu o ran prosesau ymchwiliadau goruchwyllo, ond dywedodd bod lle i wella. Roedd y Pennaeth Bydwreigiaeth yn hapus bod y tîm goruchwylwyr bydwagedd yn ei hysbysu am themâu a thueddiadau a oedd yn cael eu nodi mewn goruchwyliaeth grŵp a rhoddodd enghraifft o'r gwelliannau a wnaed yn dilyn uwchgyfeirio thema a nodwyd mewn perthynas â bydwagedd oedd newydd gymhwyso.

Roedd y Pennaeth Bydwreigiaeth yn gallu hysbysu mai canran y bydwagedd yn y sefydliad a oedd wedi cwblhau eu hyfforddiant gorfodol oedd 99.8%, cyflawniad rhagorol. Hysbysodd y Pennaeth Bydwreigiaeth y tîm archwilio hefyd fod y goruchwylwyr bydwagedd lleol wedi cefnogi bydwagedd yn llwyddiannus trwy'r broses aildilysiad a bod staff wedi nodi eu bod yn teimlo eu bod wedi cael cefnogaeth trwy gydol y broses.

Roedd y Pennaeth Bydwreigiaeth yn ymwybodol o'r newidiadau i oruchwyliaeth ac awgrymodd y gellid gwella goruchwyliaeth yn y dyfodol trwy fod yn fwy rhagweithiol gyda phecynnau ymadfer i fydwagedd.

Dywedodd un o'r uwch-reolwyr hefyd fod hon yn swyddogaeth hollbwysig a bod y tîm goruchwylwyr bydwagedd wedi ennill ei le a'i fod yn ardderchog. Dywedodd uwch-reolwr arall y byddai eglurder o ran swyddogaeth yn hanfodol yn y dyfodol.

Yn dilyn rhaglen archwilio 2015–16, ceisiwyd gwybodaeth i ddangos bod y meysydd canlynol y nodwyd bod angen eu gwella wedi cael sylw:

- Goruchwylwyr bydwagedd i gymryd rhan yn strategaethau allweddol y bwrdd iechyd
- Parhau i gefnogi trosglwyddo bydwagedd i ailddilysiad
- Sicrhau bod lleoliad y swyddfa newydd yn cael ei gyfathrebu'n effeithiol
- Ystyried cyhoeddi rota ganolog o oruchwylwyr bydwagedd sydd ar gael yn y bwrdd iechyd
- Gwella cynnwys hysbysfyrdau trwy ychwanegu enghreifftiau penodol o'r adegau pryd mae'n briodol i fenyw gysylltu â goruchwilydd
- Ni ddylai hysbysfyrdau ar gyfer negeseuon ailddilysiad ddisodli gwybodaeth i fenywod
- Dylai dolen i'r adroddiad blynyddol presennol fod ar gael i ddefnyddwyr gwasanaeth ar wefan y bwrdd iechyd
- Dylai'r tîm goruchwylwyr bydwagedd ddechrau defnyddio iaith o "drosglwyddo" o statudol i orfodol, yn hytrach na diddymu.

Canfuwyd tystiolaeth fod pob un o'r meysydd hyn wedi cael eu gwella ac mae'r goruchwylwyr bydwagedd yn cynhyrchu rota yn awr i ddangos pwy sydd ar gael. Roedd y wybodaeth ar hysbysfyrdau goruchwylwyr wedi gwella ac roedd y wybodaeth ailddilysiad yn cael ei harddangos mewn ardaloedd eraill yn awr, gan sicrhau gwybodaeth ddigonol am oruchwyliaeth i fenywod. Canfu'r tîm archwilio AGLI fod yr holl staff yn ymwybodol o'r trosglwyddiad arfaethedig ac roedd y tîm rheoli'n awyddus iawn i gefnogi'r model newydd.

O'r chwech o Reolau a Safonau Bydwagedd a archwiliwyd, cafodd pump ohonynt eu bodloni ac roedd angen gwella un ohonynt. Roedd tri ymchwiliad goruchwylwyr wedi cael eu cynnal gan y tîm goruchwylwyr bydwagedd yn ystod y 12 mis blaenorol ond dim ond un ohonynt a gwblhawyd o fewn y cyfnod amser a argymhellir. Cynhaliwyd trafodaethau yn ystod yr archwiliad mewn perthynas â pham nad oedd goruchwylwyr bydwagedd ledled Cymru'n cyrraedd y targed 60 diwrnod ar gyfer cwblhau ymchwiliadau. Un o'r ffactorau y credwyd oedd yn gyfrifol oedd nifer y goruchwylwyr bydwagedd newydd sydd wedi camu i fyny ac felly sydd angen cymorth ychwanegol i ddatblygu adroddiadau i'r safon uchel ofynnol. Credir bod oedi o ran derbyn offer TG fel gliniaduron hefyd wedi effeithio ar brydlondeb cwblhau adroddiadau gan oruchwylwyr bydwagedd sydd wedi camu i fyny, gan fod angen iddynt deithio i swyddfeydd Llywodraeth Cymru i fynd at y dogfennau ymchwiliad. Mae'r oedi wrth ddyrannu gliniaduron ac oedi posibl wrth gwblhau ymchwiliad wedi cael ei uwchgyfeirio i AGIC fel perygl. Roedd dau o'r tri goruchwilydd bydwagedd ym Mhrifysgol Betsi Cadwaladr wedi camu i fyny yn ystod y 12 mis blaenorol ac felly mae'r rhesymau hyn wedi cael eu hystyried mewn perthynas â'u perfformiad.

Ymarfer Bydwreigiaeth

Hysbysodd yr 16 o fenywod a gafodd eu cyfweld lefelau uchel iawn o foddhad gyda'r gofal a dderbyniwyd, fel y manylir yn adran adolygydd lleyg yr adroddiad hwn (Adran 8). Cafodd y Pennaeth Bydwreigiaeth ei hysbysu am yr adborth cadarnhaol iawn hwn ac y bydd yr adolygydd lleyg yn anfon enwau'r bydwagedd unigol a gafodd eu canmol gan fenywod a'u teuluoedd yn ystod yr archwiliad blynyddol ati. Gofynnodd tîm archwilio'r AGLI fod y bydwagedd unigol a enwyd yn cael eu hysbysu am yr adborth hwn.

Materion sefydliadol

Ni chafodd y tîm AGLI eu cyfarch gan unrhyw staff o'r bwrdd iechyd pan wnaethant gyrraedd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Roedd ymddiheuriadau wedi cael eu mynegi ymlaen llaw gan y Pennaeth Bydwreigiaeth. Felly nid oedd swyddog bydwreigiaeth yr AGLI yn gallu traddodi ei chyflwyniad ynglŷn â diben yr archwiliad a'r cynigion ar gyfer trosglwyddo goruchwyliaeth.

Cydnabu tîm archwilio'r AGLI eu bod yn ymwybodol bod y bwrdd iechyd wedi bod yn destun sawl archwiliad yn ystod y 12 mis blaenorol, ond eu bod wedi disgwyl cael eu cyfarch pan wnaethant gyrraedd fel mewn archwiliadau o'r blaen. Rhoddwyd gwybod am hyn i'r Pennaeth Bydwreigiaeth a'r Cyfarwyddwr Nyrsio a chynigiwyd a derbyniwyd ymddiheuriadau.

10 Monitro

Mae'n ofynnol cyflwyno cynllun gweithredu i'r AGLI cyn pen chwe wythnos ar ôl cael yr adroddiad hwn a'r argymhellion. Os oes unrhyw feysydd nad ydynt wedi'u cyflawni, dylai'r cynllun gweithredu ynglŷn â'r rhain gael ei ddiweddarau bob chwarter a'i gyflwyno i'r AGLI i roi gwybod iddo am y cynnydd a wnaed. Ar ôl i'r statud gael ei dileu, y bwriedir i'r broses fynd rhagddi ym mis Mawrth 2017, bydd y gwaith o fonitro'r cynllun gweithredu yn cael ei drosglwyddo i Bennaeth Bydwreigiaeth Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Nododd yr AGLI gefnogaeth glir ar gyfer model goruchwyllo'r dyfodol a nodwyd y canlynol fel meysydd o arfer da gan y tîm goruchwylwyr bydwagedd lleol:

- Gwaith tîm effeithiol
- Gwelededd, hygyrchedd a chefnogaeth glinigol
- Gwaith partner gyda metronau i sicrhau cydymffurfiaeth lwyr ag adolygiadau goruchwyllo blynyddol
- Rhannu gwersi o archwiliadau dogfennau gyda staff a dangos themâu a thueddiadau yn fisol ar bosteri mewn ardaloedd clinigol
- Cyfarfodydd sefydlu ar y cyd rhwng rheolwyr a goruchwylwyr gyda bydwagedd newydd gymhwyso, sydd wedi arwain at adolygiad o'r cwricwlwm hyfforddi
- Arweinwyr ar gyfer y broses ailddilysiad
- Mentrau ar gyfer y dyfodol i hyfforddi bydwagedd yn yr ysbyty, i gefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau
- Adolygiad wythnosol o Datix gyda rheolwyr a bydwraig risg.

Mae tîm archwilio'r AGLI wedi tynnu sylw at yr argymhellion a ganlyn fel meysydd i'w gwella:

- Dylai'r tîm goruchwylwyr bydwagedd ddathlu ei lwyddiannau'n fwy agored.
- Dylai'r tîm goruchwylwyr bydwagedd sicrhau bod gwersi'n cael eu rhannu ar draws y tri safle ac nid yn lleol yn unig
- Gellid gwneud mwy o hysbysfyrddau goruchwyllo ar gael i hysbysu menywod a'u teuluoedd gan mai dim ond ychydig ohonynt sydd ym mhob safle
- Dylai gweithredwyr switsfwrdd fod yn gwbl ymwybodol o'r rhif ar alwad ar gyfer Cymru gyfan
- Y bwrdd iechyd ddylai reoli cronfa ddata adolygiad bob tair blynedd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac nid y goruchwylwyr bydwagedd.

11 Casgliad

Mae'r AGLI yn ddiolchgar i bob goruchwylydd bydwragedd, presennol a blaenorol, am ei gyfraniad a'i ymrwymiad i ddarparu goruchwyliaeth statudol, ac am y cyfraniad mae'n ei wneud er mwyn cefnogi bydwragedd i gefnogi menywod.

Hoffai'r AGLI ddiolch hefyd i Sue Jose, sy'n gadael ei swydd yn Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI ym mis Hydref 2016, a hoffai groesawu Lindsey Hilldrup, a fydd yn ymgymryd â'r swydd yn ei lle.

Heb os, yr her fwyaf wrth ddarparu goruchwyliaeth statudol ledled y DU yn ystod y 12 mis diwethaf oedd cynnal y momentwm a'r ymroddiad i'r rôl wrth i newid deddfwriaethol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth gydio. Fodd bynnag, mae'r AGLI a'r Tasglu yng Nghymru yn dal i fod mewn sefyllfa i arwain y ffordd â model goruchwyllo newydd, gan adeiladu ar sail llwyddiannau presennol a chymorth cenedlaethol i gynnal rhagoriaeth mewn arferion clinigol.

12. Atodiadau

12.1 Atodiad 1 – Y Rhaglen ar gyfer yr Archwiliad AGLI

Archwiliad AGLI o Oruchwyliaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr Dydd Mercher 21 Medi (y diwrnod cyntaf)

Tîm adolygu'r AGLI

Moe Wolfe: Swyddog Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol

Kim Ashton: Goruchwyllydd Bydwagedd, Cwm Taf

Becky Lewis: Goruchwyllydd Bydwagedd, Caerdydd a'r Fro

Adolygydd Lleyg yr AGLI: Lindsey Phillips

Casglu o'r gwesty gan oruchwyllydd bydwragedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr am 09:15			
Amser	Cyfarfod/Eitem	Yn bresennol	Lleoliad
10:00	Cyrraedd Ysbyty Glan Clwyd Cyflwyniad a chroeso gan dîm adolygu'r AGLI Taith o'r ardal glinigol i gwrdd â bydwragedd, bydwragedd cymunedol a defnyddwyr gwasanaeth	Tîm Adolygu'r AGLI Goruchwylwyr Bydwagedd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Ysbyty Glan Clwyd (YGC)
11:00	Coffi yna teithio i Gwrt Carlton	Tîm Adolygu'r AGLI Goruchwylwyr Bydwagedd Prifysgol Betsi Cadwaladr	
11:30	Cyflwyniad o gyflawniadau goruchwylwyr bydwragedd	Tîm Adolygu'r AGLI Goruchwylwyr Bydwagedd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Ystafell Vicky Cwrt Carlton
12:00	CINIO – darparwyd gan y goruchwylwyr bydwragedd		
13:00	Cwrdd â Gill Harris, y Cyfarwyddwr Nyrso	Tîm Adolygu'r AGLI	Swyddfa'r Cyfarwyddwr Nyrso Cwrt Carlton

			Llanelwy
14:00	Teithio i Ysbyty Gwynedd		
15:00	Cwrdd â Fiona Giraud, y Pennaeth Bydwreigiaeth	Tîm Adolygu'r AGLI	Ystafell Heulwen, Ysbyty Gwynedd (YG)
15:30	Cwrdd â Sharn Jones, Rheolwr Cleifion Allanol	Tîm Adolygu'r AGLI	Trwy gyfrwng cynhadledd fideo Heulwen
16:00	Cwrdd â Defnyddiwr Gwasanaeth	Tîm Adolygu'r AGLI	YG Heulwen
16:30	Cwrdd â myfyrwyr-fydwagedd	Tîm Adolygu'r AGLI	YG, Ystafell Heulwen
17:00	GORFFEN Tîm Adolygu'r AGLI i deithio yn ôl i'r gwesty yng Nghyffordd Llandudno (darparwyd trafndiaeth gan oruchwylwyr bydwagedd Prifysgol Betsi Cadwaladr)		

**Archwiliad AGLI o Oruchwyliaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Dydd Iau 22 Medi (yr ail ddiwrnod)**

Tîm Adolygu'r AGLI

Moe Wolfe: Swyddog Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol

Kim Ashton: Goruchwyllydd Bydwagedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Becky Lewis: Goruchwylwyr Bydwagedd Caerdydd a'r Fro

Adolygydd Lleyg yr AGLI: Lindsey Phillips

Amser	Cyfarfod/Eitem	Yn bresennol	Lleoliad
09:00	Casglu gan Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI o'r gwesty er mwyn dechrau am 9am		
09:15	Metronau Heledd Jones, Rheolwr Cleifion Mewnol	Tîm Adolygu'r AGLI	Uned dan Arweiniad Bydwreigiaeth Ysbyty Gwynedd (YG)
10:00	Taith o'r ardal glinigol i gwrdd â bydwagedd,	Tîm Adolygu'r AGLI	YG

	bydwagedd cymunedol a defnyddwyr gwasanaeth.	Goruchwylwyr Bydwagedd Prifysgol Betsi Cadwaladr	
11:00	Coffi		
11:30	Teithio i Ysbyty Maelor Wrecsam (cludiant gan oruchwylwyr bydwagedd Prifysgol Betsi Cadwaladr)		
12:30	CINIO (CANTĪN YR YSBYTY)		
13:00	Taith o'r ardal glinigol i gwrdd â bydwagedd, bydwagedd cymunedol a defnyddwyr gwasanaeth	Tîm Adolygu'r AGLI Goruchwylwyr Bydwagedd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Uned Famolaeth Wrecsam
13:45	Cwrdd â'r fydwraig arweiniol ar gyfer addysg/tiwtor	Tîm Adolygu'r AGLI	Ystafell rianta – clinig cyn geni
14:15	Myfyrwyr-fydwagedd	Tîm Adolygu'r AGLI	Ystafell rianta – clinig cyn geni
14:45	Tîm Adolygu'r AGLI i grynhoi canfyddiadau	Tîm Adolygu'r AGLI	Ystafell rianta – clinig cyn geni
15:15	Adborth goruchwylwyr bydwagedd (trefniant i roi adborth i'r Pennaeth Bydwreigiaeth trwy gyfrwng cynhadledd fideo ar fore 23 Medi)	Tîm Adolygu'r AGLI Goruchwylwyr Bydwagedd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Ystafell rianta – clinig cyn geni
15:45	GORFFEN		
	Tîm Adolygu'r AGLI i deithio yn ôl ar y trê neu mewn car o Wrecsam		

12.2 Atodiad 2 – Holiadur AGLI

Awdurdod Goruchwylio Lleol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Archwiliad Blynyddol o Safonau ar gyfer Goruchwylio Bydwagedd
Hydref 2016

Cyfweiliad â'r goruchwylydd bydwagedd	Tystiolaeth a sylwadau'r tîm adolygu
<p>Rheol 4 Hysbysiadau gan yr AGLI A ydych yn rheoli proses y Bwriad i Ymarfer yn unol â'r broses bresennol</p>	<p>Tystiolaeth: Newydd-ddyfodiaid i'r swydd Rhai'n gadael Trosglwyddiadau Dirymu'r Bwriad i Ymarfer Cronfa ddata'r AGLI – cyflwyno'n fisol</p>
<p>Ymateb</p>	<p>Sylw:</p>
<p>Rheol 5 Cwmpas yr ymarfer Sut rydych yn cynorthwyo bydwagedd i gyflawni Rheol 5; cwmpas eu hymarfer</p>	<p>Tystiolaeth Goruchwyliaeth grŵp Cynorthwyo bydwagedd i ddarparu dewisiadau i fenywod Cynorthwyo bydwagedd gyda Rhaglen Ymarfer yr AGLI/cynllun gweithredu ynghylch dulliau dysgu/myfyrio Pen bwrdd Bydwagedd mewn swyddi nad ydynt yn ymwneud â bydwreigiaeth</p>
<p>Ymateb</p>	<p>Sylw</p>

Rheol 6 Cofnodion A allwch ddweud wrthym am eich cynllun i drosglwyddo a/neu archifo cofnodion er mwyn paratoi ar gyfer dileu goruchwyliaeth statudol.	Tystiolaeth Caiff cofnodion eu cadw'n ddiogel Mae'r cofnodion yn cael eu paratoi ar gyfer eu trosglwyddo/sganio a'u llwytho
Ymateb	Sylw
Rheol 7 Mae goruchwyliaeth ar fydwragedd wedi'i chysylltu'n agos â llywodraethu clinigol a dylai fod yn rhan annatod o brosesau llywodraethu y tu mewn i'r awdurdod goruchwylio lleol. A allwch ddarparu manylion ynglŷn â sut rydych yn cyflawni'r safon hon	Tystiolaeth Presenoldeb mewn cyfarfodydd rheoli risgiau clinigol, fforwm wardiau esgor, cyfarfod adolygu Datix, ymchwiliadau ar y cyd, adolygiadau o ddigwyddiadau anffafriol difrifol, darparu hyfforddiant gorfodol
Ymateb	Sylw
Rheol 7 – Llywodraethu A ydych yn teimlo eich bod yn gallu uwchgyfeirio pryderon at: Y sefydliad Yr AGLI A ydych yn teimlo bod eich pryderon yn cael ymateb priodol	Tystiolaeth
Ymateb	Sylw
Rheol 9 Sut rydych yn sicrhau mynediad at y tîm goruchwylwyr bydwagedd ar gyfer myfyrwyr-fydwragedd A sut rydych yn cynorthwyo'r broses o drosglwyddo o fod yn fyfyrwr i fod yn gofrestrai	
Ymateb	Sylw
Rheol 10 Cyhoeddi gweithdrefnau – ymchwiliadau goruchwylio A ydych o'r farn eich bod yn barod mewn cysylltiad ag addysg a hyfforddiant i gynnal	Tystiolaeth; Proses Ysgrifennu adroddiadau

ymchwiliadau yn unol â Rheol 10	Mynediad at hyfforddiant Mynediad at systemau TG
Ymateb	Sylw
Cyfweliad â'r Pennaeth Bydwreigiaeth	
A ydych o'r farn fod eich timau goruchwylwyr bydwreidd yn mynegi pryderon yn briodol? Os nad ydych, a allwch awgrymu sut y gellir gwella hyn	
Ymateb	Sylw
O ystyried proses ymchwilio'r AGLI, pa mor fodlon ydych chi gyda: <ul style="list-style-type: none"> • Dull y goruchwilydd bydwreidd sy'n ymchwilio o gyfathrebu • Y broses o gyfathrebu â'r goruchwilydd bydwreidd a enwir/sy'n cynorthwyo • Cysylltiadau rhwng yr AGLI a phrosesau sefydliadol 	
Ymateb	Sylw
A ydych yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn gyson am themâu a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg o sesiynau goruchwyliaeth grŵp	
Ymateb	Sylw
A ydych yn fodlon bod y tîm goruchwylwyr bydwreidd yn rhyngweithio'n effeithiol â phroses lywodraethu'r sefydliad	
Ymateb	Sylw
I ba raddau ydych yn cydymffurfio ar hyn o bryd o ran presenoldeb bydwreidd mewn hyfforddiant gofodol?	

Ymateb	Sylw
Sut y mae goruchwylwyr bydwragedd yn cynorthwyo'r broses aiddilysu ar gyfer bydwragedd yn eich sefydliad	
Ymateb	Sylw
Yn eich barn chi, pa broblemau a fydd i'w cael o safbwynt y bwrdd iechyd yn ystod y broses o drosglwyddo o oruchwyliaeth statudol i fodel o oruchwyliaeth a arweinir gan y cyflogwr (y bwrdd iechyd)	
Ymateb	Sylw
A oes gennych unrhyw awgrymiadau ynghylch gwella ansawdd goruchwylwyr bydwragedd yn eich sefydliad?	
Ymateb	Sylw
Cyfweliad â'r Cyfarwyddwr Nyrsio	
A ydych wedi'ch sicrhau bod gan yr AGLI weithdrefn gynhwysfawr ar gyfer cyflwyno adroddiadau i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei rybuddio am bob risg sy'n gysylltiedig ag adroddiadau anffafriol yn sgil gwaith monitro allanol?	Rheol 7 Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI
Ymateb	Sylw
A allwch gadarnhau bod Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI yn gallu cyflawni ei swyddogaeth yn eich sefydliad?	
Ymateb	Sylw
A ydych wedi'ch sicrhau ynghylch cynaliadwyedd y model goruchwyliaeth presennol yn eich bwrdd iechyd	

Ymateb	Sylw
A ydych o'r farn fod yr AGLI yn effeithiol o ran crybwyll ac uwchgyfeirio pryderon a'i fod yn arfer ei rôl yn effeithlon, yn effeithiol ac mewn ffordd sy'n sicrhau diogelwch yr ymarfer bydwreigiaeth yn eich sefydliad?	
Ymateb	Sylw
A ydych wedi'ch sicrhau ynghylch cynaliadwyedd y model goruchwyliaeth presennol yn eich bwrdd iechyd?	
Ymateb	Sylw
Yn eich barn chi, pa broblemau a fydd i'w cael o safbwynt y bwrdd iechyd yn ystod y broses o drosglwyddo o oruchwyliaeth statudol i fodel o oruchwyliaeth a arweinir gan y cyflogwr (y bwrdd iechyd)	
Ymateb	Sylw
A oes gennych unrhyw awgrymiadau ynghylch gwella ansawdd goruchwylwyr bydwagedd yn eich sefydliad ar ôl dileu goruchwyliaeth statudol?	
Ymateb	Sylw
Bydwagedd ac uwch-fydwagedd	
A yw goruchwylwyr bydwagedd yn amlwg yn yr amgylchedd clinigol? A fydddech yn gwybod ble yn y bwrdd iechyd y gall goruchwyllydd bydwagedd fod i'w gael? Sut y bydddech yn cysylltu â goruchwyllydd bydwagedd y tu allan i oriau?	
Ymateb	Sylw
A ydych yn gwybod sut y mae'r tîm goruchwylwyr bydwagedd yn cynorthwyo'r broses aïddilysu?	

Ymateb	Sylw
A ydych yn gwybod sut y mae'r goruchwylwyr bydwragedd yn cyd-fynd â phroses lywodraethu'r bwrdd iechyd?	
Ymateb	Sylw
Beth yw eich dealltwriaeth chi o'r newid arfaethedig o oruchwyliaeth statudol i fodel o oruchwyliaeth a arweinir gan y cyflogwr (y bwrdd iechyd).	
Ymateb	Sylw
Yn eich barn chi, pa broblemau a fydd i'w cael o safbwynt y bwrdd iechyd yn ystod y broses o drosglwyddo o oruchwyliaeth statudol i fodel o oruchwyliaeth a arweinir gan y cyflogwr (y bwrdd iechyd).	
Ymateb	Sylw
A oes gennych unrhyw awgrymiadau ynghylch gwella ansawdd goruchwylwyr bydwragedd yn eich sefydliad ar ôl dileu goruchwyliaeth statudol?	
Ymateb	Sylw
Myfyrwyr-fydwagedd	
A allwch ddisgrifio rôl y goruchwyllydd bydwragedd a'r AGLI?	
Ymateb	Sylw
A ydych wedi cael cyswllt â goruchwyllydd bydwragedd yn y 12 mis diwethaf? Os felly, am ba	

reswm?	
Ymateb	Sylw
A ydych yn gwybod sut i gysylltu â goruchwylydd bydwragedd?	
Ymateb	Sylw
A ydych yn ymwybodol o'r gofyniad statudol presennol i bob bydwaig fod â goruchwylydd bydwragedd a enwir?	
Ymateb	Sylw
Beth yw eich dealltwriaeth chi o'r newid arfaethedig o oruchwyliaeth statudol i fodel o oruchwyliaeth a arweinir gan y cyflogwr (y bwrdd iechyd).	
Ymateb	Sylw

Rhestr wirio adolygwyr lleyg ar gyfer ymweliadau archwilio

Diben y ddogfen hon yw galluogi'r adolygwyr lleyg i gynnal eu hymweliadau archwilio mewn ffordd sy'n gyson yn y tîm, sy'n adlewyrchu ac yn adeiladu ar sail canfyddiadau archwiliad 2015/16, ac sy'n ymgorffori'r newidiadau y gwyddys y byddant i'w cael yn y dyfodol i'r drefn o oruchwyllo bydwragedd. Er bod y rhestr wirio hon yn cwmpasu nifer o feysydd, disgwylir i'r adolygwyr lleyg gyflwyno sylwadau hefyd am unrhyw beth arwyddocaol y maent yn credu bod angen tynnu sylw ato yn ychwanegol at gynnwys y rhestr wirio hon.

Mae'r rhestr wirio hon yn cynnwys saith adran:

Gwaith paratoi cyn archwilio

Cwestiynau i fenywod a'u teuluoedd

Cwestiynau i fydwragedd

Cwestiynau i oruchwylwyr bydwragedd

Cwestiynau i uwch-reolwyr

Cwestiynau i gynrychiolwyr defnyddwyr
Sylwadau am yr amgylchedd

Gwaith paratoi cyn archwilio

Adolygu'r wybodaeth ar wefan y bwrdd iechyd ynghylch goruchwylio bydwagedd.

Ai'r rhif ar alwad cywir a ddangosir?

A oes disgrifiad clir o'r hyn y gall goruchwylwyr ei wneud i fenywod?

A oes dolen i wefan yr AGLI (AGIC)?

A oes dolen i'r daflen ynghylch cyflawni ("Delivering for You")?

Ar hap, dewiswch un o'r lleoliadau lle y mae gwasanaethau mamolaeth yn cael eu darparu gan y bwrdd iechyd a ffoniwch y switsfwrdd gan ofyn am rif ar alwad y goruchwylydd bydwagedd.

Ai'r rhif ar alwad cywir a roddir ichi?

Cwestiynau i fenywod a'u teuluoedd

Ein cyflwyno ein hunain ac egluro proses yr archwiliad.

1. Beth yw eich barn am y gofal a gawsoch gan fydwagedd drwy gydol eich beichiogrwydd a'r enedigaeth?

2. A oes unrhyw fydwraig a fu'n arbennig o barod i helpu a beth a wnaeth a oedd o gymorth yn arbennig?
Os enwir y fydwraig/bydwr, a gawn drosglwyddo'r adborth hwn iddi/iddo?

3. A oes unrhyw beth yr hoffech ei newid, ar sail eich profiad?

4. A oes gennych chi, neu a gawsoch, unrhyw bryderon am unrhyw un o'r bydwagedd y cawsoch gyswllt â nhw?

Os ateboch "oes" neu "do" i Gwestiwn 4, **ewch i Gwestiynau 4a – 4h**; **os ateboch "nac oes" neu "naddo"**, ewch i Gwestiwn 5.

- 4a A ydych wedi crybwyll eich pryderon wrth unrhyw un? Os ateboch “**naddo**”, ewch i **4e**
- 4b Os felly, wrth bwy?
- 4c Sut y gwnaethoch benderfynu crybwyll eich pryder wrth y person hwnnw?
- 4d A oeddech yn fodlon ar y canlyniad?

Os oedd gennych bryderon ond na wnaethoch eu crybwyll wrth neb

- 4e A oeddech yn dymuno crybwyll eich pryder?
- 4f Beth a wnaeth eich atal rhag dweud wrth rywun am eich pryder?
- 4g A ydych wedi clywed am oruchwylwyr bydwagedd?
- 4h Eglurwch y rôl: a hoffech siarad â goruchwilydd bydwagedd yn awr ynglŷn â'ch profiad?

5. Dychmygwch eich bod wedi cael pryder, er enghraifft fod arnoch eisiau math penodol o gynllun genedigaeth, a bod y fydwraig yn gwrthod ei drafod neu'n bod yn negyddol iawn yn ei gylch. Beth y byddech chi wedi'i wneud?

6. Pe baech wedi siarad â rhywun am eich pryder, beth y byddech chi am iddo'i wneud ynglŷn â'r mater?

Cwestiynau i Fydwragedd

A gawsoch adolygiad goruchwylio blynyddol yn y 12 mis diwethaf?

A gafodd eich adolygiad goruchwylio blynyddol ei gwblhau yn ystod sesiwn goruchwyliaeth grŵp?

Os felly, faint a oedd yn rhan o'ch goruchwyliaeth grŵp?

A oedd ystod o fydwragedd yn yr oruchwyliaeth?

Beth a oedd o gymorth ichi yn yr oruchwyliaeth grŵp?

A oedd rhywbeth y gellid ei wella, yn eich barn chi?

Faint o sesiynau goruchwyliaeth grŵp y buoch ynddynt dros y ddwy flynedd ddiwethaf?

A ydych yn teimlo'n fwy cadarnhaol neu'n llai cadarnhaol ynglŷn â goruchwyliaeth grŵp yn awr nag yr oeddech ar ôl eich profiad cyntaf o oruchwyliaeth grŵp?

Yn eich barn chi, beth fu'r fantais fwyaf o gyflwyno goruchwyliaeth grŵp?

A ydych wedi defnyddio rhif ar alwad y goruchwyllydd bydwragedd i gysylltu â goruchwyllydd yn y 6 mis diwethaf?

Os gwnaethoch, sut oedd y profiad? A wnaeth ddatrys eich problem ar y pryd?

Fel y gwyddoch, bydd y drefn oruchwylio'n newid yn y gwanwyn. Pa elfennau o oruchwyliaeth fel y mae yn awr yr hoffech iddynt gael eu cadw?

A oes rhywbeth yr hoffech i oruchwyliaeth ei wneud nad yw'n ei wneud ar hyn o bryd?

A oes gennych unrhyw bryderon ynghylch y model newydd arfaethedig o oruchwyliaeth a arweinir gan y cyflogwr?

Pa mor dda y mae'r gwaith o baratoi ar gyfer trosglwyddo i'r trefniadau newydd yn mynd rhagddo, yn eich barn chi?

A oes rhywbeth y mae'r tîm goruchwylwyr bydwragedd yn ei wneud sy'n arfer arbennig o dda, yn eich barn chi?

A allwn drosglwyddo eich adborth i'r tîm goruchwylwyr bydwragedd?

Yn eich barn chi, pa rôl y bydd y goruchwylwyr bydwragedd yn ei chwarae o ran helpu i leihau risgiau a dysgu gwersi yn sgil ymchwiliadau?

Cwestiynau i Oruchwylwyr Bydwagedd

Pryd y byddwch yn cynnig goruchwyliaeth grŵp?

Beth yw'r manteision sy'n gysylltiedig â goruchwyliaeth grŵp, yn eich barn chi?

A oes unrhyw beth y byddech yn ei newid?

A allwch nodi enghraifft o rywbeth sydd wedi'i drafod mewn goruchwyliaeth grŵp ac sydd wedi gwella diogelwch y cyhoedd o ganlyniad?

A oes unrhyw beth y mae'r tîm goruchwylwyr bydwagedd yn ei wneud sy'n arfer arbennig o dda, yn eich barn chi?

Pa rôl rydych chi'n ei chwarae o ran helpu i leihau risgiau a dysgu gwersi yn sgil ymchwiliadau?

O gofio'r newid arfaethedig i fodol o oruchwyliaeth a arweinir gan y cyflogwr, beth, yn eich barn chi, yw'r manteision i

- a. Goruchwylwyr bydwagedd
- b. Bydwagedd
- c. Menywod a'r cyhoedd

Ac a oes gennych unrhyw bryderon ynghylch y newidiadau a sut y byddant yn effeithio ar oruchwylwyr bydwagedd, bydwagedd a menywod?

Pa mor dda y mae'r gwaith o baratoi ar gyfer trosglwyddo i'r trefniadau newydd yn mynd rhagddo, yn eich barn chi?

Yn eich barn chi, beth y dylid ei roi ar waith i gymryd lle'r cymorth yr ydych yn ei gynnig i fenywod?

Cwestiynau i Uwch-reolwyr

Pa mor wybodus ydych chi ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd i'r drefn oruchwylio yn awr a'r cynlluniau ar gyfer gwanwyn 2017 a thu hwnt?

Beth yw'r heriau mwyaf, yn eich barn chi, o ran darparu goruchwyliaeth effeithiol yn awr ac yn y dyfodol?

Pa fanteision y mae goruchwyliaeth yn eu creu a sut bydd y rhain yn gwella neu'n newid yn y dyfodol?

Pa drefniadau sy'n cael eu gwneud ar gyfer cynorthwyo menywod yn y dyfodol a fyddai'n cysylltu â goruchwyllydd bydwagedd ar hyn o bryd?

Cwestiynau i gynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau mamolaeth

Pa gyswllt sydd gennych chi â goruchwylwyr bydwagedd ar hyn o bryd?

Yn eich barn chi, pa mor effeithiol yw goruchwylwyr o ran cefnogi dewisiadau menywod neu eu cynorthwyo gyda chwynion neu ddygymod â phrofiadau anodd?

A ydych yn ymwybodol o'r newidiadau arfaethedig i'r drefn o oruchwylio bydwagedd?

Yn eich barn chi, beth yw'r manteision sy'n gysylltiedig â'r model arfaethedig, yn arbennig o ran menywod a'u teuluoedd?

A oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig?

Yn eich barn chi, beth sydd ei angen ar fenywod i sicrhau eu bod yn gallu gwneud eu dewisiadau gwybodus eu hunain a chael cymorth pan fu pethau'n anodd?

Sylwadau am yr amgylchedd

Pan arsylwyd amynt:				
A yw gwybodaeth am oruchwylwyr bydwragedd wedi'i harddangos yn glir mewn ardaloedd cyhoeddus?				
A yw'r wybodaeth yn cynnwys y rhif ar alwad cywir ar gyfer Cymru gyfan?				
A yw rôl y goruchwilydd bydwragedd wedi'i disgrifio'n gywir yn y wybodaeth sy'n cael ei harddangos?				
A oes esboniad clir o'r amgylchiadau pan ddylai defnyddwyr gwasanaethau gysylltu â'r goruchwilydd bydwragedd?				
A yw'r daflen Cymru gyfan ynghylch goruchwylwyr bydwragedd ar gael mewn ardaloedd cyhoeddus?				
Sylwadau ychwanegol ynghylch amlygrwydd goruchwyliaeth				
Sylwadau ychwanegol am yr amgylchedd				

Atodiad 12.3 – Holiadur Adolygydd Lleyg yr AGLI

Gwaith paratoi cyn archwilio Bwrdd Iechyd:

Adolygwch y wybodaeth ar wefan y bwrdd iechyd ynghylch goruchwyllo bydwagedd.

Ai'r rhif ar alwad cywir sy'n cael ei ddangos? Ie Nage

A oes disgrifiad clir o'r hyn y gall goruchwylwyr ei wneud i fenywod? Oes
Nac oes

A oes dolen i wefan yr AGLI (AGIC)? Oes Nac oes

A oes dolen i'r daflen ynghylch cyflawni ("Delivering for You")? Oes Nac oes

Nodiadau

Ar hap, dewiswch un o'r lleoliadau lle y mae gwasanaethau mamolaeth yn cael eu darparu gan y bwrdd iechyd a ffoniwch y switsfwrdd gan ofyn am rif ar alwad y goruchwyllydd bydwagedd.

Y lleoliad a alwyd:

Y rhif a ddefnyddiwyd:

Ai'r rhif ar alwad cywir a roddir ichi? Ie Nage

Nodiadau

Cwestiynau i fenywod a'u teuluoedd

Bwrdd Iechyd:

Lleoliad:

1. Ble / sut y cawsoch eich gofal yn ystod eich beichiogrwydd? A fuoch yn fodlon ar y gofal hwn?

2. A oedd unrhyw beth a oedd yn dda iawn ynglŷn â'ch gofal? Neu unrhyw un a fu'n arbennig o barod i helpu?

3. A oes unrhyw beth y gellid ei wneud yn well?

4. A oes gennych unrhyw bryderon ynghylch unrhyw un o'r bydwagedd y cawsoch gyswllt â nhw?

5. Os cawsoch broblem yng nghyswllt bydwaig, neu eich gofal yn gyffredinol, a ydych yn gwybod at bwy y gallech droi neu i ble y gallech fynd i gael cymorth/cyngor?

6. A ydych wedi clywed am oruchwylwyr bydwagedd? Eglurwch pwy ydynt / beth ydynt a beth y maent yn gallu ei wneud. Darparwch wybodaeth am sut i ddod o hyd i'w manylion cyswllt yn y bwrdd iechyd / lleoliad penodol.

Cwestiynau i Fydwagedd

Enw:

Swydd:

Sesiynau Goruchwyliaeth Grŵp

1. A gawsoch adolygiad goruchwyllo blynyddol yn y 12 mis diwethaf, ac a gafodd ei gwblhau mewn goruchwyliaeth grŵp?

2. Trosolwg o'u goruchwyliaeth grŵp (faint, sut y'i trefnwyd, ystod y bydwagedd, unrhyw beth o gymorth, unrhyw beth y gellid ei wella?)

3. Faint o sesiynau goruchwyliaeth grŵp y buoch ynddynt dros y ddwy flynedd ddiwethaf? Mwy cadarnhaol neu'n llai cadarnhaol yn eu cylch? Y fantais fwyaf? Yr agwedd negyddol fwyaf?

Goruchwyliaeth ar alwad

4. A ydych wedi defnyddio rhif y goruchwyllydd bydwagedd ar alwad i gysylltu â goruchwyllydd yn y 6 mis diwethaf? Os ydych, sut oedd y profiad? A wnaeth ddatrys eich problem ar y pryd?

Ymchwiliadau

5. Beth yw eich barn ynglŷn â rôl y goruchwyllydd bydwagedd mewn ymchwiliadau? Cadarnhaol / negyddol? A ydynt yn helpu i leihau risgiau / dysgu gwersi? A gawsoch brofiad uniongyrchol o ymchwiliad?

Newidiadau i'r Drefn Oruchwyllo

6. A ydych yn gwybod am y newidiadau i'r drefn oruchwyllo a fydd ar waith erbyn y gwanwyn nesaf? A ydych yn teimlo'n wybodus ynglŷn â'r newidiadau? A oes gennych unrhyw bryderon am y model newydd arfaethedig o oruchwyllo a arweinir gan y cyflogwr? Pa mor dda y mae'r gwaith o baratoi ar gyfer trosglwyddo i'r trefniadau newydd yn mynd rhagddo, yn eich barn chi?

7. Pa elfennau o'r model goruchwyllo presennol y dylid eu cadw, yn eich barn chi? A oes unrhyw beth yr hoffech i oruchwyllo ei wneud nad yw'n ei wneud ar hyn o bryd?

8. A ydych yn gwybod sut y bydd menywod yn cael eu cynorthwyo o dan y model newydd?

Adborth

9. A oes unrhyw beth y mae'r tîm goruchwylwyr bydwragedd yn ei wneud sy'n arfer arbennig o dda, yn eich barn chi? A allwn ni hysbysu'r tîm goruchwylwyr bydwragedd am eich adborth?

Cwestiynau i Oruchwylwyr Bydwagedd

Sesiynau Goruchwyliaeth Grŵp

1. Sgwrs gyffredinol am eu goruchwyliaeth grŵp, sut y mae'n cael ei threfnu, presenoldeb, adborth ac yn y blaen.
2. Y buddiannau a'r heriau wrth gyflenwi goruchwyliaeth grŵp?
3. Enghraifft o rywbeth sydd wedi'i drafod mewn goruchwyliaeth grŵp ac sydd wedi gwella diogelwch y cyhoedd o ganlyniad.

Ymchwiliadau

4. Pa rôl rydych chi'n ei chwarae o ran helpu i leihau risgiau a dysgu gwersi yn sgil ymchwiliadau?

Arferion da

5. A oes unrhyw beth y mae'r tîm goruchwylwyr bydwagedd yn ei wneud sy'n arfer arbennig o dda, yn eich barn chi?

Newidiadau i'r Drefn Oruchwyllo

6. A ydych yn teimlo eich bod yn wybodus ynglŷn â'r newidiadau i'r drefn oruchwyllo? A yw'r wybodaeth hon yn cael ei dosbarthu yn y sefydliad? Pa mor dda y mae'r gwaith o baratoi ar gyfer trosglwyddo i'r trefniadau newydd yn mynd rhagddo, yn eich barn chi?

7. O gofio'r newid arfaethedig i fodol o oruchwyliaeth a arweinir gan y cyflogwr, beth, yn eich barn chi, yw'r manteision i:

- a. Goruchwylwyr bydwagedd
- b. Bydwagedd
- c. Menywod a'r cyhoedd

8. A oes gennych unrhyw bryderon am y newidiadau a sut y byddant yn effeithio ar oruchwylwyr bydwagedd, bydwagedd a menywod?

9. Yn eich barn chi, beth y dylid ei roi ar waith i gymryd lle'r cymorth yr ydych yn ei gynnig i fenywod? A yw eich sefydliad yn gwneud unrhyw gynlluniau ar gyfer y maes hwn?

Cwestiynau i Uwch-reolwyr

1. Pa mor wybodus ydych chi ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd i'r drefn oruchwylio yn awr a'r cynlluniau ar gyfer gwanwyn 2017 a thu hwnt?
2. Yn eich barn chi, beth yw'r heriau mwyaf o ran darparu goruchwyliaeth effeithiol yn awr ac yn y dyfodol?
3. Pa fanteision y mae goruchwyliaeth yn eu creu a sut y bydd y rhain yn gwella neu'n newid yn y dyfodol?
4. Pa drefniadau sy'n cael eu gwneud ar gyfer cynorthwyo menywod yn y dyfodol a fyddai'n cysylltu â goruchwyllydd bydwagedd ar hyn o bryd?

Cwestiynau i gynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau mamolaeth

Enw:

Sefydliad:

1. A ydych yn gwybod beth yw goruchwilydd bydwragedd? A roddir gwybod i chi / eich sefydliad am oruchwilyaeth? Pa gyswllt sydd gennych / a fu gennych â goruchwilywyr bydwragedd?
2. A ydych yn gwybod pa mor effeithiol yw goruchwilywyr o ran cefnogi dewisiadau menywod neu eu cynorthwyo gyda chwynion neu ddygymod â phrofiadau anodd?
3. A ydych yn meddwl bod menywod yn gwybod am oruchwilyaeth a goruchwilywyr bydwragedd?
4. A ydych yn gwybod am y newidiadau arfaethedig i'r drefn o oruchwilyo bydwragedd?
5. Yn eich barn chi, beth yw'r manteision/anfanteision sy'n gysylltiedig â'r model arfaethedig, yn arbennig o ran menywod a'u teuluoedd?
6. Yn eich barn chi, beth sydd ei angen ar fenywod i sicrhau eu bod yn gallu gwneud eu dewisiadau gwybodus eu hunain a chael cymorth pan fu pethau'n anodd?
7. Yn eich barn chi, beth yw'r ffordd orau o ddsbarthu gwybodaeth i fenywod a'u teuluoedd?

Gwybodaeth am oruchwylwyr bydwragedd a sylwadau am yr amgylchedd

Lleoliad		
A yw gwybodaeth am oruchwylwyr bydwragedd yn glir mewn ardaloedd cyhoeddus?		
Mae pob un ohonynt yn dangos y rhif ar alwad cywir ar gyfer Cymru gyfan?		
A yw rôl y goruchwilydd bydwragedd wedi'i disgrifio'n gywir yn y wybodaeth?		
A oes esboniad clir o'r amgylchiadau pan ddylai defnyddwyr gwasanaethau gysylltu â goruchwilydd bydwragedd?		
A yw'r daflen Cymru gyfan ynghylch goruchwylwyr bydwragedd ar gael mewn ardaloedd cyhoeddus?		
Sylwadau eraill ynghylch amlygrwydd goruchwyliaeth/goruchwylwyr		
Sylwadau cyffredinol am yr amgylchedd		

